

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol



EGWYDDORION AC AMCANION

Egwyddorion

Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Cydweithio'n effeithiol efo asiantaethau statudol ac eraill perthnasol i'r plentyn a'i anawsterau.

Ceisio barn y plentyn a'i chymryd i ystyriaeth.

Gweithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r plentyn.

Sicrhau ymateb Ysgol gyfan i helpu'r plentyn.

Amcanion

Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr Ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.

Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am nature anawsterau'r plentyn.

Sicrhau y caiff y ddarpariaeth anghenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

Y TREFNIADAU AR GYFER CYD-LYNU'R DDARPARIAETH

Y person sydd yn gyfrifol am gyd-lynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag A.D.Y. yw Mrs Sharon Griffith. Cyfrifoldebau'r cyd-lynydd yw:

- gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd
- cyd-gysylltu â chyd-athrawon a'u cynghori
- cyd-gysylltu'r ddarpariaeth i ddisgyblion A.D.Y.
- cynnal cofrestr A.A.A. yr ysgol a goruchwylio cofnodion pob disgybl ag A.A.A.
- cyd-gysylltu ag asiantaethau allanol gan gynnwys y gwasanaeth seicoleg addysgol ac asiantaethau eraill, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- sicrhau adolygu'r trefniadau'n rheolaidd.

ARBENIGEDD ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Mae Ms Helen Rowlands wedi arbenigo yn y maes A.D.Y.

Mae Mrs Y. Roberts o'r adran Saesneg wedi cwblhau cwrs Dyslecsia Coleg Prifysgol Bangor.

TREFNIADAU MYNEDIAD

Mae'r ysgol yn croesawu pob disgybl A.D.Y. i'r ysgol drwy:

- gydweithio gyda'r asiantaethau cynnal wrth dderbyn plentyn o'r newydd.
- fynychu cyfarfodydd swyddogol fel adolygiadau datganiadau pan fydd disgybl yn trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.
- derbyn gwybodaeth pan fydd disgybl yn symud o ysgol i ysgol.
- drafod a rhieni
- ymdrin a'r cais mewn dull cadarnhaol ac o fewn amgylchiadau sy'n bodoli o fewn yr ysgol ar yr adeg dan sylw.

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol



ADNODDAU

Llyfrau i oed darllen isel ond diddordebau i oed ardegol.
Offer ac adnoddau technoleg gwybodaeth.
Cynigir llyfrgell i athrawon yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am ADY
Cylchgronau “ Special Children”

Cyllid – Swm penodol i ADY

Staff

Mae’r cyd-lynydd yn tynnu disgyblion allan o’r dosbarthiadau prif lif Cymraeg a Saesneg am un cyfnod yn wythnosol.

Mae Mrs Helen Rowland yn addysgu disgyblion sydd ar Ddatganiad neu gam 3*

Mae 11 cymhorthydd yn gweithio yn yr ysgol ar hyn o bryd:

Maent yn gweithio gyda disgyblion sydd â wahanol gyflyrau.

- Disgybl a Palisi Ymenydd
- Disgybl Syndrome Downs
- Disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistig
- Disgyblion Anhwyldeirau Iaith
- Disgyblion ADHD
- Disgyblion â anawsterau dysgu penodol – Dyslecsia a Dyspracsia
- Disgybl ac anawsterau Dysgu Cyffredinol
- Disgyblion a phroblemau meddygol a chorfforol

Mae gan yr ysgol uwch gymhorthydd hefyd. Mae Mr N. Huws yn arolygu gwersi pan fydd athro/athrawes i ffwrdd ar eu diwrnod cyntaf o salwch. Mae ganddo amserlen i gefnogi disgyblion cyfnod allweddol tri yn bennaf fel arall.

ADNABOD AC ASESU

Mae’r trefniadau o adnabod ac asesu wedi ei selio ar gyfnodau – Gweithredu gan yr Ysgol,
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
Disgyblion 3*
Disgyblion Datganiad

Byddwn yn adnabod disgyblion ag ADY trwy;

- dderbyn gwybodaeth am blant ADY o’r cynradd.
- lefelau blwyddyn 6.
- sgrinio disgyblion ym mlwyddyn 7.
- asesiadau rheolaidd i’r dosbarthiadau.

Bydd yr ysgol yn anelu’n bennaf at wella/ datblygu sgiliau darllen, sillafu, ysgrifennu a rhif drwy:

- tynnu allan mewn grwpiau bach.
- cefnogaeth yn y dosbarth.
- cynlluniau darllen, sillafu a rhif.

Adolygir cynnydd y disgyblion yn rheolaidd.

Estynnir croeso ar unrhyw amser i rieni ddod i drafod datblygiad addysgol eu plentyn yn ogystal â nosweithiau penodedig.

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol



TREFNIADAU AR GYFER DARPARU CWRICWLWM EANG A CHYTBWYS I DDISGYBLION A.A.A.

Dyma'r trefniadau a wneir i ddisgyblion ar y gofrestr A.D.Y.

Bydd y disgyblion yn cymysgu'n llwyr gyda'r disgyblion eraill ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Os cyfyd anawsterau yna:

- rhoddir sylw unigol iddynt o fewn y dosbarth.
- paratoi gwaith gwahaniaethol ar eu cyfer.
- trefnir iddynt gael eu tynnu allan o ddosbarthiadau prif lif am gyfnodau.
- ymgynghorir gyda asiantaethau cynhaliol.
- cynhelir trafodaethau gyda rhieni.
- llunio cynlluniau addysg unigol.

CWYNION

Gall rhiant sydd â chwyn gysylltu â'r canlynol yn y lle cyntaf:

- y cyd-lynydd A.D.Y.
- y tîm rheoli.
- cynrychiolwyr y rhieni ar y llywodraethwyr.
- y Llywodraethwr penodedig A.D.Y.

* Y ddogfen Trefniaday lleol ar gyfer ystyried cwynion a wneir dan Adran 23 y Ddeddf Diwygio Addysg sydd ar gael ymhob Ysgol.

* Yn erbyn yr Awdurdod Addysg i'r Tribiwnlys A.A.A. Mae gwybodaeth am y Tribiwnlys i'w weld mewn dau lyfryn yn y gyfres "Siarter y Dinesydd" sef Plant ag anghenion arbennig Deddf Addysg 1993 Arweiniad i Rieni a Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Sut mae apelio sydd ar gael gan Adran Addysg y Swyddfa Gymreig.

GWASANAETHAU CYNHALIOL

Mae gwasanaethau cynhaliol ar gael drwy'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r gwasanaeth yn chwarae rhan bwysig wrth helpu'r Ysgol I adnabod, asesu a gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Gall gwasanaethau cynnal gynnwys offer, deunyddiau, cymorth staff neu arbenigedd proffesiynol.

PARTNERIAETH A RHIENI

Mae'r Ysgol yn cydnabod y dylanwad holl bwysig sydd gan rieni ar gynydd addysgol eu plant. Er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol bydd yr Ysgol yn annog cydweithrediad gan y rhieni:

- Talu sylw proffesiynol i bryderon rhieni gan sicrhau bod yr Ysgol yn trafod y pryderon gyda rhiant am amser rhesymol ac ar yr amser cyfleus cyntaf.
- Cysylltu a'r rhieni wrth gofrestru'r plentyn ar unrhyw un o'r cyfnodau gan ofyn eu barn a'u sylwadau.
- Rhoi sylw proffesiynol i farn y rhieni wrth lunio cynlluniau addysg unigol.
- Rhoi lle amlwg i gymorth rhiant lle bo hynny'n briodol.
- Rhannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth
- Cynnwys rhieni mewn adolygiadau rheolaidd eu plentyn

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol



CYSYLLTIADAU AG YSGOLION ERAILL

Mae cyswllt clos rhwng yr Ysgol ac ysgolion cynradd y dalgylch. Sicrheir y cywllt yma trwy ymweliadau gan:

- y Cyd-gysylltydd Cynradd/ Uwchradd a phennaeth blwyddyn 7.
- y Cyd-lynydd ADY.
- pan fydd disgybl yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, bydd yr ysgolion cynradd yn trosglwyddo gwybodaeth am y disgyblion a bydd y cyd-lynydd yn mynychu cyfarfodydd adolygu.
- pan fydd y disgyblion yn gadael yr Ysgol bydd yn rhaid cynnal adolygiad blynyddol, bydd y swyddog gyrfaoedd yn ymwneud a'r broses yma.
- mae cyswllt a Choleg Menai a Choleg Glynllifon trwy'r adran gyrfaoedd a'r adran ADY.
- daw cyswllt ag ysgolion eraill trwy ddyddiau HMS, dyddiau consortiwm, anghemnion datblygiad staff ac yn y blaen.

CYSYLLTIADAU A GWASANAETHAU IECHYD A CHYMDEITHASOL, Y GWASANAETH LLES ADDYSG A CHYRFF GWIRFODDOL

Gwasanaeth Iechyd

Mae'r nyrs ysgol yn ymwelydd rheolaidd dwywaith yr wythnos ac yn bwynt cyswllt a phersonel eraill. Yn ogystal gellir cysylltu'n ffurfiol gyda'r meddyg gyda chaniatad y rhieni i ofyn am wybodaeth berthnasol i addysg y plentyn.

Gwasanaeth Cymdeithasol

Y pwynt cyswllt cyntaf yw'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn cyfeirio'r ysgol tuag at y man priodol. Rhaid cofio y gellir ffonio'r Gwasanaeth Cymdeithasol ar unrhyw adeg os oes pryder ynghylch plentyn.

Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Swyddog Lles yn ymwelydd rheolaidd a'r ysgol a defnyddir y swyddog i ymweld â chartrefi lle bo angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad a chymorth gan gyfeirio'r ysgol at asiantaethau eraill.

Cyrff Gwirfoddol

Cynhwysir rhestr o ffynonellau cymorth yn y ffeil "Anghenion Addysg Arbennig – Deddf Addysg 1996". Mae'r ffeil hon ar gael i holl staff yr ysgol.

TREFNIADAU'R YSGOL AR GYFER HYFFORDDIANT MWEN SWYDD.

- Y cyd-gysylltydd sydd yn gyfrifol am gyd-gysylltu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag A.A.A.
- Bydd yr ysgol yn gwneud cais i gael hyfforddiant gan cwmni Cynnal ac asiantaethau perthnasol eraill pan fydd angen.

Bydd yr adroddiad blynddol yn disgrifio unrhyw ddiwygiadau i bolisi'r ysgol ar A.D.Y. a wnaed neu a gynigiwyd dros y flwyddyn. Dylai ddatgan pam y cawsant eu gwneud a sut y byddant yn effeithio ar y ddarpariaeth addysgol arbennig a wneir yn yr ysgol. Bydd yr adroddiad hefyd yn disgrifio'r egwyddorion y dyrannwyd adnoddau i ddisgyblion ag A.D.Y.

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol



POLISI CEFNOGI

Nod

Pwrpas pennaf cefnogi yw galluogi pob plentyn yn y dosbarth I gyfranogi o gwricwlwm eang beth bynnag fo gallu'r plentyn.

Pwrpas Cefnogaeth

Gellir cynnig cefnogaeth:

1. I ddisgyblion unigol mewn grwp gallu cymysg.
2. I gyd athrawon mewn dosbarthiadau lle ceir disgyblion sydd ag anawsterau dysgu.
3. Er mwyn hwyluso cyflwyniad y cwricwlwm drwy ddylanwadu ar y dewis o ddeunyddiau addysgu a'u cyflwyniad.

Beth yw addysgu gyda chefnogaeth?

1. Darparu cefnogaeth i athrawon pwnc i gyflwyno cwricwlwm Gwahaniaethol.
2. Cynnig i'r disgybl fel bo angen gyfleoedd i ymateb i'r cwricwlwm.
3. Addysgu cydweithiol mewn prif ffrwd.
4. Hyrwyddo integreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Sut i ddefnyddio cefnogaeth yn y dosbarth?

1. Cynllunio a thrafod ymlaen llaw I ddiwallu anghenion disgyblion Unigol.
2. Helpu disgyblion gyda thasgau penodol e.e.
 - gwaith ysgrifenedig
 - darllen ac egluro cyfarwyddiadau
 - darllen dros y gwaith i wneud yn siwr eu bod yn ei ddeall
3. Egluro a dehongli defnyddiau dysgu a'u cynnwys a symleiddio'r camau lle bo angen.
4. Cynorthwyo gyda gweithgareddau grwp.
5. Rhoi sylw i ddisgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol i arbed cynyrfiadau annerbyniol yn y dosbarth.
6. Rhoi cymorth i ddisgyblion a nam corfforol gyda gwaith ymarferol.
7. Gall yr athro gefnogi gynnig cymorth i nifer fawr o ddisgyblion a all fod angen rhywfaint o gymorth pan fo'r athro pwnc yn rhoi sylw eraill.

Strategaethau i'w hystyried gyda chefnogi?

1. Dulliau o gynorthwyo.
2. Gwybodaeth a thrafodaeth o flaen llaw am gynnwys fformat y wers.
3. Cadw cofnodion o'r cymorth.
4. Dulliau o gynorthwyo.
5. Cyfle i ddatblygu syniadau am wesi fydd heb cymorth.
6. Cyfrifoldeb am ddisgyblaeth.
7. Bydd angen ymagweddiad o gyfartalwch yn statws y ddwy rôl.
8. Athro cefnogi i fod yn barod i gymryd gwrs yn absenoldeb athro pwnc.

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol



Monitro Cefnogi

1. Cynnydd disgybl:
 - Gofynnir i athrawon cefnogi ar y cyd a'r athrawon pwnc lenwi'r ffurflen casglu gwybodaeth am ddisgyblion A.D.Y. ddwy waith y flwyddyn.
2. Ansawdd y cefnogi.
 - Ymweld â gwersi lle mae cefnogi e.e. Pennaeth A.D.Y., Aelod o'r Uwch Dim rheoli, Pennaeth Adran, Athrawon eraill sydd yn cefnogi.
 - Athrawon cefnogi i gofnodi sut fath o gefnogaeth a roir yn y wers.

POLISI TYNNU ALLAN

Derbynnir disgyblion i flwyddyn 7 a rhennir hwy i bedwar dosbarth o allu cymysg. Os gwelir fod disgyblion angen cymorth ychwanegol gyda'r sgiliau sylfaenol gellir cynnig hyn drwy:

1. Dynnu allan o ddsbarth prif lif Saesneg a Chymraeg am un cyfnod yn wythnosol. Canolbwyntir yno ar sgiliau mecanyddol darllen, rhugl rwydd, sgiliau darllen a deall, sgiliau sillafu a sgiliau rhifedd. Rhaid bod yn hyblyg ynglŷn â pha mor hir mae angen neilltuo disgybl. Mae hyn yn dibynnu ar natur a dwyster anawsterau'r disgybl.
2. Cael cyfnodau ben bore i ddarllen ar y cyd gyda disgyblion hŷn yr Ysgol.
3. Cael cyfnodau ben bore i ddarllen ar y cyd gyda cymorthyddion dosbarth.
4. Os yw'r plentyn ar ddatganiad neu ar gam 3* neilltuir yn ôl y gofyn.

Cyswllt â'r Adran Gyrfaoedd.

Mae gan y Cyd-gysylltydd A.D.Y. gyswllt agos a'r adran gyrfaoedd yr ysgol. Rhoddir y wybodaeth berthnasol am ddisgyblion A.D.Y. o flwyddyn 9 i 11 i'r swyddog gyrfaoedd – Cwmni Gyrfa yn flynyddol er mwyn cynllunio a paratoi y ddarpariaeth ar eu cyfer.

Gwahoddir rhieni i mewn i'r cyfweiliadau gyrfaoedd er mwyn iddynt gael trafod dyfodol eu plentyn ac i ystyried y wahanol ddarpariaeth sydd yn agored iddynt.

Gwahoddir y swyddog gyrfaoedd – Cwmni Gyrfa i'r Adolygiadau Blynyddol pan fydd y disgyblion ym Mlwyddyn 9,10 ac 11.

Bydd y cyd-lynydd yn gweithio'n agos iawn a'r swyddog gyrfaoedd er mwyn llunio cynllun arbennig ar gyfer trosglwyddo i goleg addysg bellach.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:

(Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad cymeradwyo: **21/01/2016** (gan y Corff Llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: **Hydref 2019**